

Gwasanaeth Ordeinio yng Nghadeirlan Llanelwy 2024



Llun o Esgobaeth Llanelwy yn Mynd yn Wyllt

*Dduw Sanctaidd, yng Nghrist*
*rwyt yn gwneud pob peth yn newydd.*
*Trawsnewid dlodi ein natur â chyfoeth dy ras,*
*a thrwy ein hadnewyddu,*
*gwna'n hysbys dy ogoniant nefolaidd,*
*trwy rym yr Ysbryd.*
*Amen*



# Gweddïo dros Weinidogaeth Y Drindod 2025

Ar ddyddiau'r Cydgordiau cawn alwad i weddïo dros bawb mewn gweinidogaeth, gwasanaeth ac arweinyddiaeth, a thros bawb sy'n archwilio galwad i'r weinidogaeth. Bydd Dyddiau'r Cydgordiau nesaf ar 25, 27 a 28 Mehefin. Gofynnir i chi weddïo yn arbennig ar y dyddiau hynny, ac ar hyd y tymor hwn wrth i ni drwyddedu Gweinidogion Lleyg ac ordeinio diaconiaid ac offeiriaid.

Dros y misoedd diwethaf, profwyd ton ryfeddol o bobl yn dirnad galwad i'r weinidogaeth leyg ac ordeiniedig. Os byddwch chi'n meddwl bod Duw yn eich galw, siaradwch ag arweinwyr eich Ardal Genhadaeth a darllenwch mwy am alwedigaeth a gweinidogaeth ar wefan yr Esgobaeth https://dioceseofstasaph.org.uk/vocations-and-ministry/neu sganiwch y côd QR isod.

***Effesiaid 4.1-6***
*Yr wyf fi yn eich annog i fyw yn deilwng o'r alwad a gawsoch. Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad. Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi. Un corff sydd ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb.*



Llun: o Lan i Lan

Mae dirnad gweinidogaeth yn broses sy'n eich cynnwys chi, gweinidogion eraill, teulu a ffrindiau, a Duw yn fwy na neb. Mae gweinidogaeth yn ehangach ac yn fwy amrywiol na rolau wedi'u comisiynu, rolau lleyg trwyddedig neu rolau ordeiniedig, a gall gynnwys helpu gyda digwyddiadau'r eglwys neu waith plant neu ar Bwyllgor Eglwys neu rôl yn yr Ardal Genhadaeth neu'r gymuned ehangach. I Dduw, nid oes rhai yn bwysicach nag eraill. Mae'n ein hadnabod ac yn ein galw fel y bo'n briodol. Yn un o'i ganeuon, ysgrifennodd yr emynydd a'r gweinidog o'r Alban, John L Bell, am yr alwad i wasanaethu Duw. Bydded i hyn fod yn weddi ac yn alwad i ni heddiw, i ni ddirnad i ble mae Duw yn ein galw.

"Cymer, o cymer fi fel yr wyf
Dangos yr hyn y dylwn fod
Rho dy sêl ar fy nghalon a byw ynof fi."

*Pam Powell Canon Ganghellor a Chyfarwyddwr Ordinandiaid yr Esgobaeth.*



Y Parchedig Pam Hallam gyda'r Esgob Gregory

Dduw cariad, rwyt ti'n ein galw i gymdeithas dy eglwys. Gwrando ar y weddi a offrymwm dros bawb o'th bobl ffyddlon; bydded iddynt yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth, fod yn offeryn dy ras.



**Gweddïwch dros y canlynol:**

- y rhai sy'n ystyried eu galwedigaeth ar hyn o bryd a'n tîm o Ymgynghorwyr Galwedigaethau
- galwedigaethau i'r weinidogaeth ordeiniedig o blith ymgeiswyr iau, a thros y rhai a fydd yn arwain yr eglwys yn y dyfodol wrth i ni wynebu ymddeoliad cyfran helaeth o'n clerigion
- galwedigaethau i'r gweinidogaethau lleyg trwyddedig – darllenydd, efengylwr, caplan bugeiliol, caplan ieuenctid a phlant
- cynnydd mewn ymrwymiad i ddisgyblaeth ac aeddfedrwydd Cristnogol
- holl bobl Duw mewn eglwysi ledled ein hesgobaeth wrth i ni geisio gwasanaethu Duw mewn sawl cyd-destun – yn y gwaith, yn y cartref, yn y gymuned, yn yr eglwys
- y rhai sy'n archwilio ac yn ymarfer gweinidogaeth wedi'i chomisiynu.

**Y rhai sy'n paratoi i gael eu hordeinio i'r ddiaconiaeth ar 28 Mehefin 2025**

David Dobbs
Ian Williams
Jampa King
Glyn Wise
Sharon Morgan

**Y rhai sy'n paratoi i gael eu hordeinio i'r offeiriadaeth ar 28 Mehefin 2025**

Pam Hallam

**Y rhai sydd i'w trwyddedu'n Weinidogion Lleyg ar 31 Mai 2025**

Mark Cooke (Caplan Bugeiliol)
Lucy Farrar (Caplan Bugeiliol)

**Y rhai sydd o dan hyfforddiant**

Rob Dawson
Cheryl Hesketh
Elin Douglas Jones
Sarah Namirembe
Vicki Stait
Paul Tipney-Hicks
Reuben Zwiggelaar

**Y rhai sy'n dechrau ar eu hyfforddiant eleni**

Deborah Catterall
Rhys Parry
Sharon Dean
Joshua Schoch
Hazel Lobo



Mark Cooke



Lucy Farrar



David Dobbs



Jampa King



Sharon Morgan



Ian Williams



Glyn Wise